**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15fed Tachwedd 2007**

# CYNLLUN GWELLA AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2007-08

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno Cynllun Gwella 2007-08 diwygiedig yr Awdurdod i'r aelodau ar gyfer ei gymeradwyo.

## Y Cefndir

**2.** Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar Hydref 15fed 2007, penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Cynllun Gwella 2007-08 drafft barhau i fod ar gael ar wefan yr Awdurdod, ond y byddent yn dirprwyo pwerau i'r Panel Gweithredol gymeradwyo'r cynllun yn llawn, wedi iddynt ei drafod yn fwy manwl yn eu cyfarfod nesaf ar Dachwedd 15fed.

**3.** Yn rhannol oherwydd y tarfiadau ar y gwasanaethau post ar adeg gweithredu diwydiannol, nid oedd yr Aelodau wedi derbyn copi o'r cynllun drafft tan ddiwrnod y cyfarfod. Roedd y penderfyniad i ohirio'r drafodaeth am y cynllun tan Dachwedd 15fed yn rhoi rhagor o amser i'r aelodau ddarllen ac ystyried ei gynnwys, ac i gyflwyno eu sylwadau neu eu cynigion ar gyfer gwelliannau, i'r swyddogion cyn Hydref 31ain.

**4.** Yn ychwanegol, gan na fyddai Swyddfa Archwilio Cymru yn dechrau ar eu harchwiliad o'r cynllun drafft tan Hydref 19eg, byddai hyn yn caniatáu i aelodau'r Panel Gweithredol gael gwybod am unrhyw welliannau a fyddai'n codi o'r archwiliad hwnnw.

## Cyflwyniad

**5.** Ar gyfer y Cynllun Gwella eleni, defnyddiwyd fersiwn Awst 2007 o gyfarwyddyd drafft Cynllun Cymru ar gyfer Gwella; mae'r perfformiad yn 2006-07 yn cael ei ddangos yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau (DPGG) blaenorol; ac mae disgrifiad o'r ffordd y bydd perfformiad yn cael ei asesu yn 2007-08 wedi ei seilio ar y fersiwn ddiweddaraf o'r dangosyddion drafft cyn-ymgynghoriad. Mae Cynllun Gwella 2007-08 drafft yn atodedig ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau.

## Gwybodaeth

**6.** Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau oddi wrth Aelodau cyn Hydref 31ain. Fodd bynnag, mae'r fersiwn a welodd yr Aelodau ar Hydref 15fed 2007 wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu:

- y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y Cynllun Lleihau Risg 2008-09;
- nifer fechan o newidiadau i'r testun;
- atodiad ychwanegol i ddangos y ffigurau yr adroddir yn eu cylch yn Adran 2 o'r ddogfen fel DPGG wedi eu cyfrifo;
- ychwanegu map o ardal yr Awdurdod.

Er hwylustod i'r Aelodau, mae'r rhannau newydd a diwygiedig y cynllun i'w gweld mewn coch.

**7.** Caiff Aelodau'r Panel Gweithredol wybod am unrhyw newidiadau pellach yn dilyn yr archwiliad wrth i'r rhain ddod yn hysbys**.**

## Argymhelliad

**8.** Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Gwella 2007-08 drafft i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi.